Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

## Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan

## CYF: GWASB 3 / 2019

## Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan ar argymhelliad y Cyd Grŵp Adolygu Achosion yn unol â 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dilyn marwolaeth menyw 48 mlwydd oed, a elwir yma o hyn ymlaen yn 'Ann' yn unol â dymuniadau ei theulu.

**Yr Amgylchiadau a Arweiniodd at yr Adolygiad**

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan yn dilyn argymhellion y Grŵp Adolygu Achosion. Penodwyd Adolygwyr a Chadeirydd yn y Grŵp Adolygu Achosion, ond cytunwyd i amserlennu'r adolygiad hwn yn unol ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion eraill felly bu oedi cyn cychwyn yr adolygiad.

Hysbyswyd Llywodraeth Cymru am y bwriad i gychwyn yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn ar 19 Medi 2019. Gohiriwyd cwblhau'r adroddiad hwn ymhellach oherwydd pandemig COVID-19.

Roedd Ann yn byw gyda'i Chymar (Oedolyn B) yn y gymuned. Roeddent yn cyd-fyw ers 14 o flynyddoedd. Roedd gan Ann anabledd dysgu ac roedd clefyd siwgr arni. Roedd hi hefyd yn profi gorbryder ac iselder; roedd hi wedi byw gynt mewn llety â chymorth ac yn cael gwasanaethau cymorth gan Dimau Anabledd Dysgu y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Daeth y Gwasanaethau Cymorth i ben ar gais Ann yn 2004 wedi iddi symud i mewn gydag Oedolyn B. Rhwng 2004 a 2016 gwnaethpwyd nifer o atgyfeiriadau diogelu gan wahanol asiantaethau, a hynny yn bennaf oherwydd agwedd ymosodol Oedolyn B a'i

reolaeth drosti. Pan siaradwyd gydag Ann ar fwy nag un achlysur, barnwyd fod ganddi'r gallu i ddewis byw gydag Oedolyn B a dywedodd nad oedd arni eisiau ymyrraeth.

Ym Mehefin 2017, gwnaed atgyfeiriad diogelu pellach gan ei meddyg teulu. Rhwng Mehefin 2017 a Chwefror 2018, mynediad bylchog a gafwyd at Ann; llwyddodd Ffisiotherapydd a Therapydd Galwedigaethol i wneud rhywfaint o gyswllt, ond methodd staff eraill â chael mynediad ati. Oherwydd y pryder ynghylch ei diogelwch, cafwyd ymweliad ar y cyd gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Mawrth 2018. Roedd Oedolyn B yn ymosodol iawn tuag at staff yr Awdurdod Lleol, a dim ond y Swyddog Heddlu gafodd fynediad i'r tŷ. Cwrddodd y Swyddog Heddlu ag Ann am ychydig o amser cyn i Oedolyn B ddechrau cynhyrfu a mynnu'n ymosodol fod y Swyddog yn gadael yr eiddo. Yn dilyn hyn, trafodwyd mesurau diogelu pellach ac yn Ebrill 2018 cafwyd mynediad dan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Defnyddiwyd yr APSO ar 10 Ebrill 2018 i gael mynediad at Ann. Ar y dyddiad hwn, gwnaed ymweliad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu. Llwyddodd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i siarad ag Ann i asesu ei lles a'i dymuniadau, ac yn dilyn ymweliad gan y meddyg teulu yn ddiweddarach yr un diwrnod, cytunodd i gael ei derbyn i'r ysbyty. Yn yr ysbyty y bu Ann wedyn o ddyddiad gweithredu'r APSO hyd ei marwolaeth drist ar 28 Ebrill 2018.

**Defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) (Adroddiad yn atodiad A).**

Roedd defnyddio'r APSO i gael mynediad at Ann yn ymarfer da, gan ei fod yn rhoi cyfle i gwrdd ag Ann i gael sgwrs lle gellid datgelu unrhyw beth. Roedd yn fodd i sicrhau Ann fod cymorth ar gael iddi fyw y tu allan i'w chartref, i ffwrdd oddi wrth Oedolyn B. Ailsefydlwyd cyswllt â'i theulu, a chlywyd ei llais. Yn drist iawn, cyn y gellid gwneud unrhyw drefniadau pellach, bu Ann farw. Pe na bai hyn wedi digwydd, byddai cynlluniau rhyddhau wedi cael eu gwneud, a byddai Ann wedi cael cymorth i fyw mewn amgylchedd i ffwrdd oddi wrth Oedolyn B. Roedd y panel yn ymwybodol mai dyma'r tro cyntaf i APSO gael ei ddefnyddio yng Nghymru, felly mae adroddiad pellach ar y broses wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**Ann fel y'i disgrifir gan ei theulu.**

Ymwelwyd â mam, modryb, chwaer a merch Ann yn Ionawr 2020. Yn ystod yr ymweliad hwn trafodwyd ffugenw ar gyfer yr adroddiad hwn, a dewiswyd yr enw 'Ann' gan ei theulu. Ganwyd Ann yn 1970, a chafodd ei mabwysiadu'n 3 mis oed. Aeth i ysgol arbennig, a gwnaeth gyrsiau coleg oedd wedi'u teilwra ar gyfer ei gallu. Yn ddiweddarach bu'n gweithio mewn cegin yn golchi llestri. Nid oedd Ann erioed wedi byw'n annibynnol. Cyfarfu â'i gŵr a'i briodi, ac fe symudon nhw'n ddiweddarach i Gymru i ymgymryd â busnes yno. Roedd gan Ann a'i gŵr un ferch. Pan ddaeth priodas Ann â'i gŵr i ben oherwydd cam-drin domestig, ni allai Ann ofalu am ei merch, ac aeth honno i fyw gyda'i mam-gu a'i thad-cu ar ochr ei mam yn Lloegr. Roedd Ann yn mwynhau gweithgareddau cymdeithasol, crefftwaith a mynd i glybiau; roedd hi'n hoffi bod gyda phobl. Roedd Ann yn mwynhau achlysuron pan ddeuai'r teulu ynghyd, a phan allai, byddai'n ymweld â'i theulu a'i merch sy'n byw yn Lloegr. Roedd ymweld ag Ann yn anodd i'w theulu ar brydiau, gan fod Oedolyn B yn

oriog a digroeso a byddai'n eu rhwystro rhag ei gweld. Byddai Ann yn mynd ar y trên i weld ei theulu, a byddai ei merch yn teithio i Gymru. Byddai merch Ann yn mynd i aros ati weithiau, ond roedd hi'n cael ymddygiad Oedolyn B yn ormesol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddi fod yn y tŷ, ac ymhen amser roedd ei merch yn methu ymweld ag Ann oherwydd dylanwad Oedolyn B ar Ann ac oherwydd ei agwedd at ei theulu. Ond fe wnaeth Ann gadw mewn cysylltiad â'i theulu dros y ffôn, gymaint ag y gallai. Yn ôl ei theulu, roedd gan Ann galon aur ac roedd yn ffrind i bawb. Dywedant hefyd fod Ann yn debyg i blentyn a'i bod yn agored i niwed.

**Y Cyfnod Amser a Adolygir**

Y cyfnod amser sy'n cael ei adolygu yma yw rhwng 29 Medi 2016 a 28 Ebrill 2018, sef cyfnod o 19 mis cyn marwolaeth Ann.

## Pethau i'w Dysgu o ran Ymarfer a Threfniadaeth

Wrth wneud yr Adolygiad hwn, rydym yn ddiolchgar am yr amserlenni a gyflwynwyd gan yr asiantaethau a'r wybodaeth a'r amser a roddwyd gan aelodau'r teulu. Hoffem ddiolch hefyd i'r swyddogion proffesiynol a ddaeth i'r Digwyddiad Dysgu.

Nodir fod yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn wedi digwydd gryn amser wedi marwolaeth Ann ac, yn y cyfamser, cydnabuwyd fod newidiadau mewn dulliau ymarfer eisoes wedi digwydd, e.e. gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**Themâu a Phwyntiau Dysgu**

Nodwyd tair thema gyffredinol a fu'n sail i'r pwyntiau dysgu a gymerir o'r adolygiad hwn.

- Gweithio gyda gofalyddion/teuluoedd gelyniaethus ac anghydweithredol
- Materion Gofal Sylfaenol
- Defnyddio Deddfwriaeth, yn benodol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

**Thema 1 - Gweithio gyda gofalyddion/teuluoedd gelyniaethus ac anghydweithredol**

Mae'n amlwg o ystyried y llinell amser a sylwadau ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu fod Oedolyn B wedi gweithredu mewn ffordd rwystrol ac ystrywgar. Byddai'n

siarad ar ran Ann o hyd ac yn atal ymarferwyr rhag siarad â hi, a phan gaent wneud hynny, anaml iawn y byddai ar ei phen ei hun. Oherwydd y diffyg mynediad hwn at Ann, roedd yn anodd i awn i ymarferwyr asesu ei sefyllfa, ei hanghenion a'i dymuniadau.

Mae cofnodion y meddyg teulu'n nodi fod Ann wedi cytuno y câi Oedolyn B gysylltu â'r feddygfa ar ei rhan, a thrwyddo ef y gwnaed pob cysylltiad. Roedd hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ymarferwyr eraill a nododd mai trwy Oedolyn B y byddid yn cysylltu gan amlaf.

**Pwyntiau Dysgu**

- Pan fydd gofalydd neu aelod teulu'n siarad ar ran rhywun, dylai hyn weithredu fel ysgogydd i ystyried ymhellach.
- Mae rheoli gofalyddion/teuluoedd rhwystrol oedolion sydd mewn perygl yn cael effaith sylweddol ar asesu a chymorth.
- Dylid annog ymarferwyr i ddod o hyd i ddulliau amgen o siarad yn breifat ag oedolion sydd mewn perygl.

**Enghraifft o Arfer Da:** Yn yr achos hwn, aeth dau Therapydd Galwedigaethol i'r eiddo a rannodd Oedolyn B ac Ann gyda'i gilydd. Gofynnodd un ohonyn nhw gwestiwn i Oedolyn B a wnaeth ei dynnu allan o'r ystafell tra bod y llall yn siarad ag Ann ar ei phen ei hun. Dywedodd yr Heddlu eu bod nhw hefyd yn defnyddio'r dechneg hon.

Ar adegau, roedd Oedolyn B yn elyniaethus , yn ddychrynllyd ac yn ymosodol ar lafar i staff o bob asiantaeth. Bygythiodd ymarferwyr hefyd â chwynion ar sawl achlysur. Roedd bygythiadau uniongyrchol at weithwyr cymdeithasol ond doedd dim trais corfforol. Ni chafodd yr wybodaeth hon ei rhannu gyda'r heddlu trwy'r broses ddiogelu. Mae hefyd yn aneglur a oedd digon o fanylion yn yr wybodaeth yn y cofnodion er mwyn heddlu weithredu.

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae ymddygiad bygythiol yn cael effaith niweidiol ar asesu'r anghenion a darparu gofal a chymorth i oedolyn a allai fod mewn perygl.
- Mae hefyd yn codi materion ynghylch yr effaith ar ymarferwyr yn bersonol ac yn broffesiynol a sut i sicrhau eu diogelwch.
- Byddai'n ddefnyddiol cynnal cyfarfod strategaeth gan gynnwys yr Uned Diogelwch y Cyhoedd gan yr heddlu pan fydd bygythiadau i ymarferwyr mewn achosion diogelu.
- Er mwyn i'r heddlu weithredu ar fygythiadau i ymarferwyr mae angen gwybodaeth fanwl arnynt am y digwyddiad er mwyn gallu penderfynu ar unrhyw gamau addas. Byddai codi ymwybyddiaeth o'r gofynion a'r ddogfennaeth safonol i'w defnyddio o fewn asiantaethau partner yn cynorthwyo i sicrhau bod yr heddlu'n cymryd rhan lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol.

**Enghraifft o Arfer Da:** Yn y maes Iechyd mae ffurflen Maes Pryder y gellir ei defnyddio pan fydd pryderon am ymddygiad.

Mae gan y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Ganllawiau Amlasiantaethol ar Weithio gyda Rhieni Elyniaethus neu Anghydweithredol. Fodd bynnag, does dim canllaw tebyg ar gyfer gweithio gyda theuluoedd a gofalyddion oedolion sydd mewn perygl

**Argymhelliad:** Dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddarparu arweiniad amlasiantaethol ar weithio gyda gofalyddion a theuluoedd antagonistaidd ac anghydweithredol oedolion sydd mewn perygl.

Trwy gydol y llinell amser gwelwyd nad oedd Ann yn ymgysylltu nac yn gwrthod gwasanaethau gan asiantaethau amrywiol. O ystyried ei pharodrwydd i dderbyn cymorth pan gafodd ei gynnig iddi yn bersonol, yn hytrach na bod y rhain yn benderfyniadau a wnaed gan Ann ei hun, teimlir bod hyn o ganlyniad i Oedolyn B yn rhwystro mynediad, yn siarad drosti ac yn twyllo ymarferwyr â chydymffurfiad ffug a bygythiadau o gwynion. Un enghraifft oedd yr angen am gawod mae modd cerdded i mewn iddi â mynediad gwastad. Gwnaed y cais cychwynnol ym mis Mai 2017 ond ni chafodd ei gwblhau tan fis Medi gan fod Oedolyn B yn gwrthod mynediad yn amrywiol a gwneud cwynion am staff.

Ar sawl achlysur oherwydd methiant i siarad ag Ann, ysgrifennwyd ati a gwelwyd diffyg ymateb fel gwrthod cymorth. Fodd bynnag, ar adegau roedd Oedolyn B yn mynnu bod pob cyfathrebiad ar ffurf ysgrifenedig, a nodwyd wedi hynny ei fod yn rheoli'r holl bost yn y cartref. Mae amheuaeth hefyd, oherwydd ei hanabledd dysgu, a fyddai Ann wedi gallu deall y cyfathrebiad ysgrifenedig hwn. Dywedodd merch Ann wrthon ni y byddai Oedolyn B yn cuddio llythyron, felly ni welodd Ann nhw erioed.

**Pwyntiau Dysgu**

- Gall oedolion sydd mewn perygl ag anableddau fod yn ddibynnol ar eraill i sicrhau eu bod yn mynychu apwyntiadau, a gall methiant i fynychu fod oherwydd hepgor neu weithredoedd eu gofalyddion/teuluoedd.
- Dylid ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i gyfathrebu ag oedolion sydd mewn perygl, yn enwedig lle mae pryderon am eu gallu gwybyddol.

**Enghraifft o Arfer Da:** Yn y maes iechyd plant, bu symudiad i ddefnyddio ‘Ni chymerwyd i'r apwyntiad’ yn hytrach na ‘Heb fynychu’ pan fydd plant yn methu â chadw apwyntiadau. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw plant yn aml mewn sefyllfa i fynychu heb gymorth gofalydd neu aelod o'r teulu. Hefyd, yn yr achos o blant sydd mewn perygl, gall methu â mynychu apwyntiadau fod yn gast bwriadol neu'n arwydd o esgeulustod.

**Argymhelliad:** Dylai’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ystyried Polisi ‘Ni chymerwyd i'r apwyntiad’ ar gyfer oedolion sydd mewn perygl a phlant sy’n methu â mynychu apwyntiadau gydag unrhyw asiantaeth.

**<u>Thema 2: Materion Gofal Sylfaenol</u>**

Roedd y patrwm hwn a welwyd gan holl asiantaethau o Oedolion B yn rheoli gofal Ann yn glir iawn yn ei ryngweithio â'i meddygfa. Roedd ei ymddygiad gyda staff y

practis yn afresymol. O ganlyniad, heriodd y feddygfa Oedolyn B am ei ymddygiad ac nad oedd yn bosibl parhau i drafod anghenion Ann drwyddo.
Mae gan y feddygfa bolisi ar gyfer rhannu gwybodaeth cleifion gyda pherthnasau/gofalyddion a thrydydd partïon. Roedd nodyn a baner glir yn y cofnod meddygol bod Ann wedi rhoi caniatâd i Oedolyn B reoli ei hanghenion iechyd gyda'r feddygfa. Doedd dim amserlen benodol ar gyfer adolygu'r caniatâd hwn. Ymdriniwyd â delio â pherthnasau/gofalyddion afresymol sy'n cynrychioli cleifion fesul achos ond roedd y feddygfa yn teimlo y byddai polisi mewn perthynas â hyn yn fuddiol.
Roedd y meddyg teulu yn cydnabod bod cam-drin seicolegol ac emosiynol tymor hir parhaus yn cyfrannu at Ann yn dioddef o bryder ac iselder ac roedd yn amhosibl ei helpu yn unigol oherwydd y ffordd yr oedd Oedolyn B yn ei rheoli. O ganlyniad, gwnaeth y meddyg teulu ddyletswydd i gyflwyno atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol ym mis Mehefin 2017.
Yna cychwynnwyd newid mewn practis meddyg teulu ar gyfer Ann gan Oedolyn B ar ôl i'r practis meddyg teulu gwreiddiol ysgrifennu ato am ei ymddygiad annerbyniol. Roedd pryderon y gallai'r symudiad hwn fod yn niweidiol i Ann gan nad oedd yn eglur faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu pan fydd cleifion yn newid i feddygfa arall. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes pryderon parhaus e.e. gofal lliniarol; materion diogelu; anghenion iechyd cymhleth.
Mae'n bwysig, pan fydd claf yn newid i feddygfa arall, bod gwybodaeth am bryderon sy'n gysylltiedig â hwy yn cael ei throsglwyddo mewn ffordd sy'n rhoi gwybod i'r feddygfa newydd. Wrth symud i drosglwyddo cofnodion yn electronig, gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio baneri a rhybuddion sy'n ymddangos yn awtomatig yng nghofnod y feddygfa ar unwaith wrth eu trosglwyddo. Mae hyn yn dibynnu ar gofnodion o ansawdd da gan y feddygfa, y defnydd unffurf o'r system hon a chydnawsedd rhwng systemau TG meddygfeydd.
Roedd gan y feddygfa wreiddiol faner glir ar gofnodion Ann a nododd fod cam-drin seicolegol posibl gan ei phartner ac roedd manylion cyswllt ar gyfer y tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol wedi'u cynnwys.

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae'n bwysig cael polisi clir ar gyfer rhannu cofnodion cleifion. Rhaid i hyn fodloni gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Pan fo hwn yn gytundeb parhaus i ganiatáu i drydydd parti reoli gofal meddygol claf, dylai fod amserlen iddo gael ei adolygu.
- Mae'n bwysig bod pryderon yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnod y claf a bod rhybuddion/baneri priodol yn cael eu defnyddio'n gyson.
- Mae defnyddio rhybuddion/baneri yn system gofnodion y feddygfa i dynnu sylw staff at bryderon yn arbennig o bwysig pan fydd cleifion yn trosglwyddo meddygfeydd.
- Dylid rhannu rhybuddion a baneri fel rhan o'r broses trosglwyddo cofnodion yn electronig.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai gan feddygfeydd bolisi ar gyfer delio ag ymddygiad afresymol gan berthnasau/gofalyddion sy'n cynrychioli cleifion.

**Enghraifft o Arfer Da:** Roedd dyletswydd rhoi gwybod priodol ac o ansawdd da gan y feddygfa ym mis Mehefin 2017.
Roedd fflag/rhybudd ar gofnodion Ann a rybuddiodd am gamdriniaeth seicolegol bosibl gan bartner a manylion cyswllt ar gyfer y tîm gwasanaethau cymdeithasol

lleol.
Roedd gan y Feddygfa bolisi ar gyfer rhannu gwybodaeth am gleifion â gofalyddion/perthnasau a oedd yn cynnwys fflag ar gofnodion bod caniatâd wedi'i roi i rannu gwybodaeth gyda pherthynas/gofalydd.

**Argymhelliad**
Asiantaethau i ystyried sut maen nhw'n rheoli rhannu gwybodaeth pan fydd cleifion/cleientiaid yn enwebu rhywun arall i gydlynu eu gofal.

**Thema3: Defnyddio Deddfwriaeth, yn benodol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005.**

Mae'r tair deddf, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Capasiti Meddwl 2005 yn bwysig yn yr achos hwn. Roedd rhywfaint o arfer da mewn perthynas â'r darnau hyn o ddeddfwriaeth ond teimlwyd hefyd bod datgysylltiad rhyngddynt ar brydiau.
Oherwydd y cymhlethdod, byddai'r achos hwn wedi elwa o haenu'r tri darn hyn o ddeddfwriaeth yn hytrach na bod pob un yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Roedd nifer o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol dros y cyfnod a adolygwyd, a chyn hyn. Nid yw'n ymddangos bod yr achos erioed wedi'i gau i dîm diogelu'r awdurdod lleol, er bod un adroddiad ym mis Medi 2017 yn nodi ei fod. Ffactor yn yr achos hwn oedd y diffyg ymgysylltu â'r holl wasanaethau gan gynnwys yr awdurdod lleol. Mae tystiolaeth bod gwasanaethau cymdeithasol wedi parhau i arsylwi a chyfathrebu ag asiantaethau eraill ac ymdrech i geisio ymgysylltu ag Ann trwy amryw o ffyrdd. Fodd bynnag, roedd bylchau sylweddol rhwng digwyddiadau.

Nid yw'n ymddangos bod gweithiwr allweddol wedi'i ddynodi tan fis Chwefror 2018. Nodir bod angen Cydlynydd Arweiniol ac Ymarferydd Arweiniol ar Weithdrefnau Diogelu Cymru diweddaraf.

Ym mis Mai 2017 atgyfeiriwyd am asesiad gwaith cymdeithasol oherwydd bod Ann yn gaeth i'r gwely. Penderfynwyd aros tan ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r cartref i gynorthwyo Ann cyn i'r asesiad hwn ddigwydd. Roedd nifer o atgyfeiriadau ar gyfer Ann wedi bod eisoes.. Mae ymyrraeth gynnar yn bwysig, a gallai pecyn gofal dros dro fod wedi cael ei roi ar waith wrth aros am y gwaith hwn.

**Enghraifft o Arfer Da:** Ni chafwyd cyfranogiad Tîm Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol ar gau er gwaethaf diffyg ymgysylltu ac roedd ymdrechion parhaus i siarad ag Ann.

Ym mis Mehefin 2017, yn dilyn yr atgyfeiriad dyletswydd i roi gwybod am oedolyn mewn perygl gan y meddyg teulu, cynhaliwyd cyfarfod strategaeth. Nid yw'n ymddangos bod trafodaeth strategaeth canlyniadau wedi'i chynnal.

Nid oedd Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU) yr Heddlu wedi cael gwahoddiad i'r Cyfarfod Strategaeth ym mis Chwefror 2018. Roedd hwn yn gyfle cynnar i'r heddlu â chyfrifoldeb am amddiffyn oedolion i ddôn yn rhan.

Daliodd ymarferwyr ati i geisio ymgysylltu ag Ann, a gwrthodwyd mynediad iddynt, ac roedd pryderon ynghylch ymddygiad gelyniaethus a chamdriniol tuag at staff gan Oedolyn B. Trefnwyd ymweliad lles ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol a swyddog yr heddlu. Fodd bynnag, nid oedd y swyddog yr heddlu yn un â chyfrifoldeb am amddiffyn oedolion ond yn Swyddog Lleihau Trosedd ac Anhrefn ac roedd gwybodaeth gyfyngedig wedi'i rhannu am y materion diogelu cyn yr ymweliad hwn. Byddai cyfranogiad Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu mewn trafodaethau amlasiantaeth, gan gynnwys ar sut i ddelio â'r materion hyn a darparu cyngor ac arweiniad ar ddefnyddio adnoddau'r heddlu, wedi bod yn fuddiol.

Nid yw'n arferol rhannu pryderon diogelu gyda'r tîm diogelu corfforaethol na rhwng timau iechyd cymunedol. Nid oedd y Nyrsys Dosbarth yn ymwybodol o'r pryderon diogelu pan aethant i mewn i ddarparu cyfnodau o ofal, a bod atgyfeiriad dyletswydd i roi gwybod wedi'i wneud i'r gwasanaethau cymdeithasol. Teimlwyd y gallai hyn arwain at golli cyfleoedd i wasanaethau gofal iechyd cymunedol ddarparu gofal cyfannol i gleifion bregus. Pan ofynnwyd am y Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion, nodwyd nad oedd Ann wedi cael ei hadolygiad meddygol ac felly gofynnwyd i Nyrs Ardal ymweld i gymryd gwaed. Gofynnodd y meddyg teulu i'r Nyrs Ardal fynd, ac nid oedden nhw'n ymwybodol o'r pryderon ynghylch mynediad ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn dasg i gymryd gwaed. Roedd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn bresennol. Yn ystod y digwyddiad Dysgu, dywedodd y Nyrs Ardal pe byddent wedi bod yn ymwybodol o'r cefndir a'r pryderon y byddent wedi sicrhau bod nyrs gymwysedig wedi cynnal yr ymweliad fel y gallent gynnal asesiad mwy cyfannol.

Bydd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn caniatáu rhannu rhywfaint o wybodaeth ar draws gwasanaethau. Wrth i hyn gael ei weithredu bydd gan Nyrsio Ardal a'r tîm adnoddau cymunedol fynediad i'r WCCIS, bydd gan bedwar o'r pum awdurdod lleol yng Ngwent fynediad hefyd. Bydd hyn yn darparu adnodd ar gyfer rhannu rhagor o wybodaeth fel mater o drefn ar draws sefydliadau.

**Enghraifft o Arfer Da:** Mewn un ardal awdurdod lleol mae Gwasanaethau Cymdeithasol a Nyrsys Dosbarth yn cwrdd yn wythnosol i drafod achosion neu bryderon a rennir.

Yn rhanbarthol mae symudiad i weithredu hybiau amlasiantaeth lleol. Bydd gan yr hybiau hyn gysylltiadau â thimau Nyrsio Ardal. Disgwylir y bydd mabwysiadu'r WCCIS a'r hybiau lleol yn gwella prosesau rhannu gwybodaeth.

**Pwyntiau Dysgu**

- Ni chadwyd cyfranogiad Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol er gwaethaf diffyg ymgysylltu. Mae canllawiau ar gau achosion oherwydd diffyg ymgysylltiad parhaus gan yr oedolyn sydd mewn perygl yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Mae angen modd i adnabod gweithiwr allweddol a enwir. Mae gan Weithdrefnau Diogelu Cymru ofyniad clir am Gydlynydd Arweiniol ac Ymarferydd Arweiniol.

- Mae angen ystyried ymhellach y broses cau/gohirio’r broses ddiogelu a’r ddyletswydd gofal yn enwedig lle mae diffyg ymgysylltu, er enghraifft defnyddio pecynnau gofal dros dro.
- Mae'n bwysig bod gwybodaeth ynghylch pryderon diogelu ac atgyfeiriadau dyletswydd rhoi gwybod yn cael ei rhannu o fewn ac ar draws asiantaethau er mwyn caniatáu darparu gofal cyfannol.
- Mae'n bwysig bod yr asiantaethau perthnasol yn bresennol yn ystod y drafodaeth strategaeth gychwynnol a chyfarfodydd strategaeth dilynol. Ar adeg yr achos hwn, roedd y broses ddyletswydd rhoi gwybod yn wahanol i'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Mae gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach wedi disodli hyn gan nodi y dylai cyfarfodydd strategaeth oedolion mewn perygl gynnwys:
    - personél priodol sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn oedolion yn yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol;
    - yr ymarferydd sy'n llunio'r adroddiad;
    - ymarferwyr o wasanaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl, eu teulu a'u gofalyddion;
    - meddyg o'r gwasanaeth sydd wedi/a allai fod yn darparu archwiliad meddygol.

Bydd ymgysylltiad ymarferwyr eraill yn dibynnu ar natur unigol yr achos

**Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymry) 2015**

Bu pryderon ac atgyfeiriadau blaenorol am Ann yn dioddef cam-drin domestig yn ei holl berthnasau agos, gan gynnwys gydag Oedolyn B. Er bod parhau yn y berthynas hon yn benderfyniad annoeth, nododd ymarferwyr fod gan Ann y gallu i wneud y penderfyniad hwn. Er bod atgyfeiriadau niferus a'r ddyletswydd i adrodd ar gyfer Ann mewn perthynas â cham-drin domestig, nid oedd digon o ystyriaeth i'r patrwm hwn ac am ba hyd y codwyd y pryderon hyn.

Er gwaethaf y pryderon ynghylch cam-drin domestig, ni chynhaliwyd asesiad risg i Ann. Nid oedd ymarferwyr yn gallu siarad â hi ar ei phen ei hun i asesu'r risg o gam-drin domestig. Mae modd defnyddio'r Adnodd Asesu Cam-drin Domestig, Aflonyddu, Stelcio ac Anrhydedd (asesiad risg DASH) heb i'r dioddefwr posib fod yn bresennol a gall ddangos yr angen i weithredu o hyd. Gellir wedi ystyried a oedd rheolaeth orfodol yn atal Ann rhag gwneud penderfyniad annibynnol am ei hamgylchiadau.

Roedd pryderon bod ymddygiad Oedolion B tuag at Ann yn reolaeth orfodol. Mynegwyd hyn mewn atgyfeiriadau blaenorol at y gwasanaeth diogelu ac fe'i cynhwyswyd yn yr atgyfeiriad dyletswydd rhoi gwybod gan y meddyg teulu.

Yn ystod y digwyddiad dysgu roedd ymarferwyr yn cydnabod bod ymddygiad Oedolion B yn orfodol ac yn rheolaethol. Fe wnaeth atal ymarferwyr rhag cael mynediad i Ann a defnyddio ymddygiad ymosodol a chwynion i wasanaethau fel ffordd o reoli mynediad. Datgelodd trafodaeth gyda'r teulu hefyd hanes hir o ymddygiad rheolaethol trwy wneud mynediad yn fwyfwy anodd. Pan ddechreuon nhw eu perthynas, byddai Ann yn ymweld â’i theulu yn Lloegr gydag Oedolyn B. Dros amser fe wnaethant nodi bod cyswllt yn dod yn fwy cyfyngedig a bod yr

ymweliadau wedi dod i ben. Parhaodd merch Ann i ymweld â hi ond gwnaeth Oedolyn B iddi deimlo’n anghyfforddus, a byddai’n ei dilyn ac yn atal Ann rhag gadael yr eiddo. Roedd patrwm yr ymddygiad hwn yn golygu bod cyswllt rhwng Ann a'i merch yn cael ei leihau i alwadau ffôn achlysurol, ac ar adeg ei derbyn i'r ysbyty nid oedd Ann wedi gweld ei merch ers 4 blynedd.

Daeth y drosedd o reolaeth orfodol i rym ar 29ain Rhagfyr 2015 lai na deuddeg mis cyn y cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyfforddiant am y cysyniad hwn o fewn asiantaethau yn llawer gwell heddiw.

Byddai cynnwys y PPU yn gynnar yn yr achos hwn wedi rhoi cyfle i archwilio a oedd yn bosibl erlyn Oedolyn B yn droseddol am reolaeth orfodol. Gallai hyn ddigwydd fel rhan o gyfarfod strategaeth Oedolion mewn Perygl.

Mae'n anodd tystio gorfodaeth. Mae gwahaniaeth rhwng yr wybodaeth y gellir ei chasglu mewn ymchwiliad oedolyn mewn perygl a lefel y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer erlyniad troseddol. Byddai hyfforddiant ac arweiniad ar nodi rheolaeth orfodol a chasglu'r dystiolaeth berthnasol sy'n ofynnol gan yr heddlu yn ddefnyddiol i bob asiantaeth.

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae'n bwysig bod yr asiantaethau perthnasol yn bresennol mewn cyfarfodydd strategaeth cychwynnol a dilynol.
- Rhaid i asiantaethau fod yn ymwybodol o agweddau troseddol gorfodaeth a rheolaeth a sut i ddarparu gwybodaeth y bydd yr heddlu'n gallu ei defnyddio fel tystiolaeth.
- Mae angen i ymarferwyr fynd i'r arfer o gwblhau asesiad risg lle maen nhw'n amau cam-drin domestig
- Mae angen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ynghylch nodi, tystio a rheoli Cam-drin Domestig a Rheolaeth Orfodol a defnyddio'r asesiad risg DASH.

**Argymhelliad:** Byddai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o orfodaeth a rheoli, gan gynnwys sut i ddarparu manylion yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer achos troseddol, a defnyddio'r asesiad risg DASH yn fuddiol i staff rheng flaen.

**Enghraifft o Arfer Da:** Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cynhyrchu Gwybodaeth Atodol ar gyfer Ymarferwyr: Rheoli Gorfodol fel atodiad i'r protocol APSO Drafft. Mae hyn yn darparu cyngor i ymarferwyr.

**<u>Deddf Galluedd Meddyliol 2005</u>**

Mae hanes Ann yn dangos bod ganddi gryn dipyn o anabledd dysgu. Yn flaenorol, roedd hi wedi bod o dan wasanaethau anableddau dysgu yr awdurdod lleol ond roedd wedi tynnu allan o'r rhain yn fuan ar ôl symud i mewn gydag Oedolyn B. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, nid oedd ymarferwyr yn glir a oedd gan Ann anabledd dysgu. Nid yw'n glir sut y cafodd ei cholli i wasanaethau anableddau dysgu a'i thynnu o'r gofrestr anableddau dysgu. Dim ond cofnodion parhaus sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n agored i wasanaethau cymdeithasol oherwydd eu hanabledd.

Er gwaethaf anabledd dysgu Ann, a phryderon am ymddygiad rheolaethol Oedolyn B, does dim cofnod o asesiad galluedd meddyliol nes bod Ann yn yr ysbyty. Mae'n ymddangos bod dryswch ynghylch rhagdybiaeth capasiti'r Deddf Galluedd Meddyliol a'r angen i asesu capasiti. Mae'r Deddf Galluedd Meddyliol yn nodi, "The starting assumption must always be that a person has the capacity to make a decision, unless it can be established that they lack capacity". Y prawf dau gam o brawf gallu yw; "A oes gan y person nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu a oes rhyw fath o aflonyddwch yn effeithio ar y ffordd y mae ei feddwl neu ei ymennydd yn gweithio?" ac "Os felly, a yw'r nam neu aflonyddwch hwnnw'n golygu nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad dan sylw ar yr adeg y mae angen ei wneud?"

Roedd gan Ann anabledd dysgu a olygai nad oedd hi erioed wedi byw'n annibynnol ac mae hynny'n golygu amhariad ar y meddwl neu'r ymennydd. Roedd pryderon hefyd am y penderfyniadau roedd hi'n eu gwneud. Dylai hyn fod yn rheswm i gwestiynu gallu unigolyn ac i gynnal asesiad. Dywed y Ddeddf Galluedd Meddyliol hefyd "A person's capacity must be assessed specifically in terms of their capacity to make a particular decision at the time it needs to be made." Lle mae nam ar y meddwl neu'r ymennydd, mae angen asesiad ffurfiol.

Ymddengys bod y diffyg gwybodaeth am Anabledd Dysgu Ann wedi arwain at ymarferwyr yn teimlo iddi basio'r prawf gallu dau gam a'i bod yn cydsynio i'w sefyllfa. Mae'r panel yn cydnabod na archwiliwyd effaith Anabledd Dysgu Ann yn llawn yn yr achos hwn. Dros amser aeth ei diagnosis ar goll ac felly nid oedd effaith hyn ar ei gallu i wneud penderfyniadau bob amser yn cael ei ystyried.

Roedd pryderon yn y digwyddiad dysgu ynghylch sut y gall rheolaeth orfodol effeithio ar allu meddyliol unigolyn. Derbynnir y gall ymddygiad gorfodol a rheolaethol effeithio ar allu i wneud penderfyniadau ac atal unigolyn rhag gwneud ei ddewisiadau ei hun. Gall hyn fod oherwydd ymddygiad addasol wedi'i achosi gan orfodaeth a rheolaeth neu ofn cosb bosibl. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ystyried yn amhariad ar y meddwl neu'r ymennydd, aflonyddwch sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r meddwl neu'r ymennydd yn gweithio neu anhwylder iechyd meddwl ac nid yw'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Lle mae gan rywun y gallu i wneud penderfyniadau, ond ei fod yn profi gorfodaeth a rheolaeth a allai amharu ar eu galluoedd i wneud penderfyniadau, gall yr Uchel Lys weithredu ei "awdurdodaeth gynhenid" ond fel rheol dim ond mewn achosion eithafol lle mae risg ddifrifol i fywyd y gwneir hyn, ac mae'r holl lwybrau cyfreithiol a chymorth eraill wedi'u disbyddu.

**Enghraifft o Arfer Da:** Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cynhyrchu Gwybodaeth Atodol ar gyfer Ymarferwyr: Rheoli Gorfodol fel atodiad i'r protocol APSO Drafft. Mae hyn yn darparu cyngor i ymarferwyr.

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae'n bwysig gael diagnosis a lefel o anabledd o ran Anableddau Dysgu oedolion er mwyn gallu ystyried materion capasiti a chynllunio gofal.
- Mae angen gwell proses ar gyfer y gofrestr Anabledd Dysgu, ar y cychwyn ac i'w hadolygu er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen gwasanaethau parhaus neu adolygiad yn cael eu nodi'n gywir.
- Dylai'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac asesiadau capasiti gael eu defnyddio'n

ehangach ac yn gynhwysfawr.

- Dylid cynnal asesiadau gallu yn ffurfiol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'u dogfennu ynghyd ag unrhyw benderfyniadau dilynol.
- Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol pryd y gallai “awdurdodaeth gynhenid” y llys fod o gymorth.

**Argymhelliad:** Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bryd i ystyried awdurdodaeth gynhenid y llys mewn achosion cymhleth a difrifol.

**Argymhelliad:** Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac asesiadau capasiti.

I grynhoi, dyma 3 darn allweddol o ddeddfwriaeth. Roedd arfer da o ran bod Diogelu yn cynnwys cyfranogiad. Pe bai'r diogelwch wedi'i weld â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn golwg, gan ystyried ei gallu, gallai hyn fod wedi cefnogi asiantaethau i ymyrryd yn gynharach.

**Argymhelliad:** Dylai hyfforddiant diogelu gynnwys enghreifftiau achos cymhleth i ddangos pwysigrwydd ystyried yr holl ffactorau sy'n effeithio ar oedolion sydd mewn perygl a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Argymhelliad**: Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol rannu'r APR hwn gyda'r Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig lleol

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn hyrwyddo dysgu oddi wrth yr achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol i Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent a'i aelod-asiantaethau gan ragweld canlyniadau o ran gwelliant*:-

**ARGYMHELLIAD 1:** Dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddarparu canllawiau amlasiantaeth ar weithio gyda gofalyddion a theuluoedd gelyniaethus ac anghydweithredol i oedolion mewn perygl.

**ARGYMHELLIAD 2:** Dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ystyried Polisi 'Nis Cyflwynwyd' ar gyfer oedolion mewn perygl a phlant sydd heb ymddangos ar gyfer apwyntiad gydag unrhyw asiantaeth.

**ARGYMHELLIAD 3:** Dylai asiantaethau ystyried sut maent yn rheoli proses rhannu gwybodaeth pan fo cleifion/cleientiaid yn enwebu rhywun arall i gyd-drefnu eu gofal.

**ARGYMHELLIAD 4:** Byddai'n fuddiol i staff rheng flaen fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymddygiad gormesol a gorfodaeth, gan gynnwys sut i ddarparu'r manylder gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer achos troseddol, a defnydd o asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu.

**ARGYMHELLIAD 5:** Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ba bryd y dylid ystyried awdurdodaeth gynhenid y llys mewn achosion cymhleth a difrifol.

**ARGYMHELLIAD 6:** Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac asesiadau galluedd.

**ARGYMHELLIAD 7:** Dylai hyfforddiant diogelu gynnwys enghreifftiau o achosion cymhleth i ddarlunio pwysigrwydd ystyried yr holl ffactorau sy'n effeithio ar oedolyn mewn perygl, a pherthynas hyn â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**ARGYMHELLIAD 8:** Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol rannu'r Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn gyda'r Bwrdd Partneriaeth VAWDASV (Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) lleol.

**Atodiad A – Defnyddio'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)**

Pan ddaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2016, cyflwynwyd newidiadau cynhwysfawr i ymarfer diogelu yng Nghymru, gan gynnwys, dan ran 7 (127), defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO). Rhaid cael y gorchymyn sifil newydd hwn oddi wrth ynad heddwch neu farnwr ac mae'n galluogi swyddog awdurdodedig i gael mynediad i'r fan lle mae rhywun a allai fod yn oedolyn mewn perygl yn byw.

Gellir gofyn am orchymyn APSO pan na ellir cael mynediad at yr unigolyn a bod achos rhesymol dros amau fod yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl, a bod angen cael mynediad er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw gamau y gall fod angen eu cymryd. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddangos i'r ynad heddwch fod angen y gorchymyn. Dewis olaf yw APSO a dylid chwilio pob dull a modd arall cyn gwneud cais am orchymyn o'r fath.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru benodi swyddogion awdurdodedig dan Ran 7 y Ddeddf a darparwyd hyfforddiant yn 2016 gan Gyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach). Trefnwyd hyfforddiant ac adnoddau ar-lein ganddynt hefyd i sicrhau bod y sgiliau diweddaraf gan bawb. Roedd proses yr APSO yn newydd i bawb, a gan mai deddfwriaeth newydd oedd hon, doedd neb yn glir pa mor aml y byddai angen ei defnyddio.

Amcan yr adroddiad hwn yw archwilio a nodi dysg ac ymarfer da yn sgîl y cais cyntaf a'r defnydd cyntaf o orchymyn APSO yng Nghymru.

Bu'r awdurdod lleol a wnaeth gais am yr APSO hwn mor garedig â chytuno i drafod y broses gyda ni a rhoi adborth ar yr heriau a wynebwyd a'r pethau a aeth yn dda, sydd i'w gweld yn ein canfyddiadau.

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl:
Cyfrol 4 - Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion' fel un pwynt cyfeirio ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Dywed y canllaw hwn (1.19) mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dim ond pan fydd opsiynau eraill llai ymwthiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu y dylid gwneud ceisiadau.

Ystyriwyd APSO gyntaf yn achos Ann am fod ymarferwyr yn gweld bod pob cyswllt yn digwydd trwy Oedolyn B ac roedd yr ymarferwyr yn methu nodi a oedd Ann yn oedolyn mewn perygl ac angen gofal a chymorth. Cafwyd cefnogaeth ar fater yr APSO gan un o uwch reolwyr yr awdurdod lleol, nad oedd yn ymwneud â'r achos ac

a oedd felly'n gallu adolygu'r amgylchiadau'n wrthrychol. Roedd ganddi sgiliau a chysylltiadau â gwasanaethau cyfreithiol hefyd, a theimlwyd bod hynny'n fuddiol yn yr achos hwn.

Y sbardunau ar gyfer ystyried y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion oedd:

- Lefel pryder
- Nifer o weithiau y cyfeiriwyd at ddiogelu
- Pryderon ynghylch gallu Ann
- Analluu i gael mynediad i Ann

Mae gan swyddogion awdurdodedig rôl allweddol wrth graffu ar y broses benderfynu cyn i unrhyw gais gael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.

Cytunodd yr uwch reolwr gyda'r arweinydd diogelu y dylid cynnal cyfarfod strategaeth yn cynnwys swyddog Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion awdurdodedig o'r awdurdod lleol, roedd hyn er mwyn gallu ystyried Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion fel un opsiwn. Rhoddwyd her briodol gan y swyddog awdurdodedig ynghylch a oedd pob cam i siarad ag Ann wedi'i ddisbyddu. Mae hyn yn unol â chanllawiau, gyda Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion yn 'opsiwn dewis olaf' Arweiniodd hyn at y cynllun i staff gael ymgais arall i siarad ag Ann gyda chymorth yr heddlu, oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad ei phartner, Oedolyn B. Methodd yr ymgais hon eto oherwydd rhwystr gan Oedolion B.

**Enghraifft o Arfer Da:** Daliodd ymarferwyr ati i geisio ymgysylltu ag Ann er gwaethaf bod mynediad yn cael ei wrthod mynediad iddyn nhw. Nodwyd pryderon ynghylch ymddygiad gelyniaethus a chamdriniol tuag at staff gan Oedolyn B. Trefnwyd ymweliad lles ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol a swyddog yr heddlu. Fodd bynnag, nid oedd y swyddog yr heddlu yn un â chyfrifoldeb am amddiffyn oedolion, ond yn hytrach yn Swyddog Gostwng Trosedd ac Anhwylder.

Cynhaliwyd cyfarfod adolygu strategaeth. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd pawb a oedd yn bresennol oherwydd:

- y pryderon sylweddol
- methiant i siarad ag Ann er gwaethaf sawl ymgais gan gynnwys defnyddio staff profiadol
- y ffaith bod gormod o fanylion am Ann a'i hanghenion nad oedd yn hysbys

Cytunwyd bod gwneud cais ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion yn briodol.

**Pwyntiau Dysgu**

- Sicrhewch fod popeth wedi'i wneud i gael mynediad cyn gwneud cais ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion

**Argymhelliad:**
Mae cynnwys yr asiantaeth heddlu gywir yn hanfodol i'r ymateb a ddarperir. Felly dylai fod cysylltiadau sefydledig ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu.

Mae angen i asiantaethau'r heddlu hefyd ystyried dulliau amgen o ymdrin â'r Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion fel deddfwriaeth rheolaeth orfodol, trais domestig a Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE). O dan Weithdrefnau Diogelu Cymru newydd, bydd yr Uned Diogelu'r Cyhoedd yn gweithio'n agosach gyda'r awdurdodau lleol ac asiantaethau allweddol eraill, gan gynnig dull mwy cydlynol. Mae'r canllawiau rhanbarthol newydd, dogfen Protocol Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft), yn cynnwys templed i gofnodi ystyriaethau a rhesymeg yr heddlu ynghylch pam nad yw'r heddlu'n ystyried bod cyfraith amgen yn briodol (bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i ynad neu farnwr fel tystiolaeth os bydd cais am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion).

Yn achos Ann, bu trafodaeth fanwl ynghylch a oedd yn briodol rhoi gwybod i'r person a fyddai'n destun y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion a'i ofalyddion/berthnasau. Mae hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ‘Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 - Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion’ sy’n cynghori y dylid ystyried rhoi rhybudd ysgrifenedig i ddeiliad yr adeilad. Os yw'r swyddog awdurdodedig yn pryderu y gallai rhoi rhybudd arwain at niwed posibl i'r unigolyn, dylid cynnwys yr wybodaeth hon ynghyd â pham mae'r swyddog awdurdodedig wedi dod i'r casgliad hwn, yn y cais.

**Enghraifft o Arfer Da:** yn achos Ann, roedd y swyddog awdurdodedig yn ymwybodol mai ei diogelwch oedd o'r pwys mwyaf, a gallai rhybudd ymlaen llaw fod yn niweidiol, felly penderfynwyd na ddylid rhoi rhybudd a chytunodd y barnwr â hyn.

Pan gychwynnwyd y broses Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion, nododd yr awdurdod lleol nad oedd unrhyw brosesau mewnol wedi'u hysgrifennu. Heb fod polisi na gweithdrefnau mewnol ar waith fe wnaethant lunio canllaw i ymarfer yn barod ar gyfer y cais.

Teimlai'r awdurdod lleol nad oedd digon o “dystiolaeth” bod gan y swyddog awdurdodedig yr awdurdod i weithredu ar ran yr awdurdod lleol. Mae gan ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy yr awdurdod penodol hwn.

**Pwyntiau Dysgu**

- Roedd gan y swyddog awdurdodedig dystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, roedd cyfreithiwr yr awdurdod lleol yn teimlo nad oedd hyn yn ddigonol i sicrhau'r ynad.

Ar ôl cytuno bod angen Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion, penderfynodd yr

awdurdod lleol fod angen polisïau mewnol a chanllaw ymarfer. Fe wnaethon nhw hefyd adolygu a oedd gan y swyddog awdurdodedig ddigon o dystiolaeth ynghylch bod ag awdurdod yn y rôl hon ac a oedd y dystysgrif yn ddigonol. Penderfynon nhw fod angen tystiolaeth fwy cadarn bod y swyddog awdurdodedig wedi'i gymeradwyo i weithredu yn hyn o beth.

Wrth i'r broses ddatblygu, lluniodd y swyddog awdurdodedig ddatganiad tyst i'w gyflwyno i'r llys ar y cyd â'r arweinydd diogelu, gweithiwr cymdeithasol, uwch reolwr a chyfreithiwr. Gellir gofyn i dystion fynychu'r llys, darparwyd datganiad yn lle hyn.
**Enghraifft o Arfer Da:** yn ychwanegol at y weithdrefn a'r canllawiau a luniwyd, lluniodd y cyfreithiwr grynodeb yn egluro fframwaith cyfreithiol y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion ar gyfer y llys, gan fod y cyfreithiwr yn ymwybodol na fyddent wedi gweld cais am un o'r blaen.

**Pwyntiau Dysgu**

- Pwysleisiodd y cyfreithiwr pa mor bwysig yw hi fod y dystiolaeth hon yn ddigon manwl ac o ansawdd ar gyfer y llys. Rhaid cael cefndir a chyd-destun ar gyfer yr holl ddatganiadau yn y cais ac mae'n rhaid cael achos dros bob penderfyniad y gofynnir i'r llys ei wneud, e.e. yn yr achos hwn gan ddefnyddio'r Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion heb rybudd i'r unigolyn neu ei phartner.

- Roedd gwybodaeth y cyfreithiwr o broses y llys yn hanfodol gan eu bod yn darparu arweiniad ar y safon ofynnol o wybodaeth yr oedd angen ei darparu i'r barnwr.

Mae'n bwysig bod ystyriaeth yn digwydd pryd y bydd y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion yn cael ei weithredu a faint o amser y mae angen y Gorchymyn. Roedd angen y manylion hyn ar y barnwr.

Pwysleisiodd y barnwr yn achos Ann ei bod yn bwysig parhau i ganolbwyntio ar bwrpas y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion sef; (a) siarad yn breifat ag unigolyn yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl, (b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i ddarganfod a yw'r person hwnnw yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd, ac (c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ar ba gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

Cynlluniodd y grŵp y gorchymyn o safbwynt bod yn gyfle i wneud darn o waith cymdeithasol neu i adeiladu perthynas ag Ann. Fodd bynnag, roedd yn amlwg gan y barnwr mai "pŵer mynediad" yn unig oedd y gorchymyn a'i fod ar gyfer sgwrs yn unig ac nad oedd modd gofyn am "siec gwag". Dywedodd y dylent "fynd i ddarganfod" a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Ar ôl iddyn nhw wneud hyn, gellid

penderfynu pa gamau yr oedd angen eu cymryd ac yna gellid dwyn yr achos yn ôl i'r llys pe bai angen. Mae'r barnwr neu ynad heddwch yn nodi pa mor hir y mae'r gorchymyn yn para a sawl gwaith y gellir ei ddefnyddio.

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae'n bwysig cofio eich bod yn cyflawni'r Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion oherwydd nad ydych chi'n gwybod beth yw'r sefyllfa ac mae'n rhaid i'r ffocws fod ar ddod o hyd i hyn.
- Ni allwch gynllunio unrhyw ymyriadau ymlaen llaw ond gallwch ystyried pa gymorth a chefnogaeth a allai fod eu hangen a dylai hyn fod wrth gefn, os yw'r sefyllfa'n gofyn am weithredu cyflym.

Roedd angen rhoi ystyriaeth ymlaen llaw i'r amser yr oedd angen y gorchymyn ar ei gyfer a phwrpas penodol y gorchymyn oedd y cyfle i siarad ag Ann i ddarganfod a oedd hi'n oedolyn mewn perygl ac i wneud penderfyniad ar ba gamau, os o gwbl , dylid ei gymryd.

Mae gwaith tîm a chynllunio yn hanfodol i gynorthwyo a pharatoi'r swyddog awdurdodedig.
Pwysleisiodd y swyddog awdurdodedig pa mor bwysig oedd y gwaith paratoi gan y tîm er mwyn iddo roi tystiolaeth yn y llys. Dywedodd ei fod yn teimlo bod angen dull tîm aml-broffesiynol er mwyn gwneud cais am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion a bod hyn yn hanfodol ar gyfer cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig, yn enwedig o amgylch proses y llys a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn yr amserlen fer sy'n ofynnol .

Mae angen set gymhleth o sgiliau ar y swyddog awdurdodedig; er mwyn i'r swyddog awdurdodedig feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r rôl hon, roedd yr awdurdod lleol yn teimlo bod angen i'r swyddog fod yn uwch aelod o staff profiadol a dylid ardystio bod y swyddog awdurdodedig yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Roeddent hefyd yn teimlo gan mai dim ond dau swyddog awdurdodedig a hyfforddwyd ym mhob awdurdod lleol, roedd yn bwysig bod y rhestr o'r swyddfeydd awdurdodedig yn cael ei diweddaru.

**Pwyntiau Dysgu**

- Rhaid bod gan swyddogion Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion ddigon o sgiliau a gwybodaeth i allu darparu'r gallu i herio a chraffu.

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ddogfen Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion, fel arweiniad i ymarferwyr a phwynt cyfeirio sengl ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r ddogfen hon (1.9) yn manylu ar y sgiliau a'r priodoleddau sy'n ofynnol ar gyfer y swyddog awdurdodedig.

Mae dogfen Protocol Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft) yn cynnwys ffurflen ‘penodi swyddog awdurdodedig (Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion)’ y mae angen i’r awdurdod lleol perthnasol ei llofnodi, gan gadarnhau bod gan y swyddog awdurdodedig y profiad a’r hyfforddiant perthnasol. Mae darpariaeth hefyd i benodi swyddog awdurdodedig i weithio mewn awdurdod lleol arall yng Ngwent, os oes angen. Mae'r un ddogfen yn cynghori bod Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr o swyddogion awdurdodedig.

Nid gorchymyn brys yw Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion. Fodd bynnag, o ystyried mai hwn yw'r opsiwn olaf, teimlir bod angen cymhwyso elfen frys. Os bydd cais yn cael ei ohirio gall awgrymu i'r llys nad oes ei angen. Byddai angen i'r awdurdod lleol fod â pholisi, gweithdrefnau a phrosesau cytunedig ar waith cyn cyflwyno cais er mwyn atal unrhyw oedi. Mae angen cytundeb gydag asiantaethau partner ynghylch blaenoriaethu'r gwaith hwn am yr un rheswm.

**Argymhelliad**
Dylid trin cais am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion gyda'r un lefel o frys â gwarant Iechyd Meddwl 135, wrth ei baratoi a threfnu amser yn y llys.

Yn yr achos hwn cymerodd tua phythefnos i baratoi'r cais ac wythnos ar gyfer dyddiad yn y llys. Roedd hyn yn cynnwys ysgrifennu polisïau mewnol, disgwylir y dylai fod yn gyflymach yn y dyfodol, gan fod gan yr awdurdod lleol bolisïau a gweithdrefnau ar waith erbyn hyn, mae'r rhain yn cynnwys datganiad gorchymyn drafft.

Roedd asiantaethau'n ymwybodol bod cais am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion yn cael ei wneud. Mae'n bwysig cynllunio ar gyfer sut y bydd y Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion yn cael ei gynnal, gan bwy a phryd, cyn ymddangos yn y llys.

**Pwyntiau Dysgu**

- Dylai cynllunio wrth gefn gael ei ystyried ymlaen llaw fel cael eiriolwr, sicrhau bod cludiant priodol a man diogel ar gael, ynghyd ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a allai fod eu hangen. Yn yr achos hwn, roedd cael y meddyg teulu yn bresennol yn bwysig ac efallai y bydd angen trefnu hyn ymlaen llaw.

**Enghraifft o Arfer Da:**
Roedd y cydweithrediad a'r gweithio fel tîm gyda'r meddygfa ac ymateb trwy drefnu asesiad brys yn hanfodol yn achos Ann. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r Gorchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion ynglŷn â hyn.

Nid oedd Tîm Diogelu Corfforaethol y Byrddau Iechyd wedi cymryd rhan, bu trafodaethau ynghylch pwy fyddai orau i arwain o safbwynt iechyd a byddent yn cynorthwyo i nodi'r angen am opsiynau fel mynediad i'r ysbyty a chludiant ambiwlans, gan ddarparu dull mwy cynhwysfawr yn ei dro.

**Argymhelliad:** Dylid ceisio cyfranogiad Tîm Diogelu Corfforaethol y Byrddau Iechyd ym mhob cais am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion.

Byddai'r Swyddog Awdurdodedig wedi hoffi gallu nodi pryd y byddai cyfarfod amlasiantaethol i gwblhau trefniadau .

Byddai angen trefnu'r cyfarfod hwn ymlaen llaw ar gyfer y diwrnod mynychu'r llys, neu'r diwrnod ar ôl hynny. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'r gweithwyr proffesiynol priodol ar gael i gytuno a gwneud unrhyw drefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer deddfu'r gorchymyn. Mae canllawiau newydd wedi'u cynnwys ym Mhrotocol Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft) ac mae hyn yn cynghori, unwaith y bydd y swyddog awdurdodedig wedi cael y gorchymyn, bod rhaid ailymgynnull cyfarfod strategaeth amlasiantaethol at ddibenion cynllunio a rhannu gwybodaeth o fewn 24 awr, lle bo hynny'n bosibl.

Yn achos Ann, gweithredwyd y gorchymyn drannoeth. Mynychodd yr heddlu ac roeddent yn gallu sicrhau mynediad a chynorthwyo fel y gallai Ann gael ei gweld ar ei phen ei hun. Roedd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu siarad ag Ann am ddwy awr ac yna dychwelyd yn ddiweddarach yr un diwrnod gyda'r Meddyg Teulu.

**Pwyntiau Dysgu:**

- Teimlai'r swyddog awdurdodedig ei bod yn bwysig ystyried ble y mae modd siarad â'r cleient heb unrhyw ddylanwad gormodol posibl yn bresennol.

Roedd Ann yn hapus i siarad â'r gweithwyr cymdeithasol ond ar y dechrau roedd hi'n anhapus gadael ei chartref. Teimlwyd efallai nad oedd hi'n hyderus i adael oherwydd ei bod yn ansicr ynghylch ble yr oedd hi'n mynd a pha mor hir y gallai fod yno. Cytunodd i'r gwasanaethau cymdeithasol fynd yn ôl gyda meddyg teulu yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac roedd yn hapus i fynd i'r ysbyty pan argymhellwyd hyn. Roedd modd i'r gwasanaethau cymdeithasol ei chymryd i'r ysbyty mewn car.

**Argymhelliad**

Mae'n bwysig cael sesiwn ôl-drafod ar ôl y Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion mewn ffordd debyg i ddigwyddiad dysgu ymarfer, er mwyn galluogi staff i drafod y broses a'r effaith y mae wedi'i chael arnynt yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer gwella arfer.

Canfu'r Awdurdod Lleol;

Yn gyffredinol, roedd y ddogfen 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 - Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion ar gyfer ymarferwyr' yn ddefnyddiol. Dywedodd y swyddog awdurdodedig ei fod yn defnyddio'r canllaw hwn fel eu prif ffynhonnell wrth ddod i wybod am botensial ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion. Teimlai'r swyddog awdurdodedig fod y canllawiau'n ddefnyddiol ac yn glir. Fe wnaethant ddefnyddio'r ddogfen hon fel cyfeiriad i lywio eu harfer wrth fynychu cyfarfodydd ac wrth rannu gwybodaeth gyda'r tîm diogelu oedolion ehangach, yn ogystal â nodi egwyddorion y gorchymyn i bawb, nid dim ond y swyddog awdurdodedig.

Byddai'n ddefnyddiol cael gorchymyn drafft i'w gyflwyno i'r barnwr i'w lofnodi, gan mai dyma sut mae'r broses yn y llys yn gweithio yn gyffredinol. Drafftiodd y Cyfreithiwr un ar gyfer yr achos hwn gan ddefnyddio gorchmynion tebyg eraill fel templed.

Byddai canllawiau rhanbarthol wedi bod yn ddefnyddiol. Mae canllaw rhanbarthol Protocol Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft) bellach yn cael ei ddatblygu. Roedd y Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion hwn yn rhagflaenu'r canllaw hwn. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys ardystio, yn rhoi gwybod am yr hyfforddiant sy'n ofynnol, yn cynghori bod Llywodraeth Cymru yn cynnal rhestr o swyddogion awdurdodedig, yn cynnwys templed manteision ac anfanteision a thempled ystyriaeth yr heddlu. Mae hefyd yn cynnwys taflen wybodaeth i'r swyddogion awdurdodedig ei rhoi pan fyddant yn ymweld ag unigolyn, ond nid yw hyn ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael taflenni gwybodaeth i'w rhoi i'r unigolyn dan sylw a'u gofalyddion/teulu, sy'n esbonio'r broses wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei darllen.
Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael taflenni ar gyfer gweithwyr proffesiynol, yn enwedig y rheini o asiantaethau y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol i egluro beth yw Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion a'r broses.

**Argymhelliad**

Dylai canllawiau rhanbarthol Protocol Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft) gynnwys gorchymyn enghreifftiol, taflenni gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a thaflenni gwybodaeth hawdd eu darllen ar gyfer oedolion sydd mewn perygl, teuluoedd/gofalyddion.

**Cyfeiriadau:**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion canllawiau ar gyfer ymarferwyr
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrog-4-gorchymyn-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion.pdf

Canllawiau rhanbarthol Protocol Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion Gwent (Drafft)

## Datganiad(au) gan Adolygydd/wyr

### ADOLYGYDD 1

**Datganiad annibyniaeth oddi wrth yr achos:** Datganiad cymhwysedd o ran Sicrhau Ansawdd

Yr wyf yn datgan fel a ganlyn:
Cyn ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-

- Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol dros unrhyw ymarferwr sy'n ymwneud â'r achos.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r adolygiad
- Cyflawnwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion a amlinellwyd yn y Cylch Gorchwyl

**Adolygydd 1** *(Llofnod)*

**Enw** *(Print)* Nigel Farr

### ADOLYGYDD 2

**Datganiad annibyniaeth oddi wrth yr achos:** Datganiad cymhwysedd o ran Sicrhau Ansawdd

Yr wyf yn datgan fel a ganlyn:
Cyn ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-

- Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol dros unrhyw ymarferwr sy'n ymwneud â'r achos.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r adolygiad
- Cyflawnwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion a amlinellwyd yn y Cylch Gorchwyl

**Adolygydd 2** *(Llofnod)*

**Enw** *(Print)* Claire Thomas

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | 10.08.2021 | **Dyddiad** | 6/8/2021 |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* |  |
| **Enw** *(Print)* | Ann Hamlet |
| **Dyddiad** | 06/08/2021 |

| **Proses yr Adolygiad Ymarfer Oedolion** |
|---|
| **<u>Proses Adolygiad Ymarfer Oedolion</u>**<br>Fe hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) Lywodraeth Cymru ar 9 Medi 2019 ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig.<br><br>**Adolygydd**: Dr Nigel Farr, Arweinydd Meddygon Teulu, Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>**Adolygydd**: Claire Thomas, Cydlynydd Gofal Iechyd Parhaus/Swyddog Awdurdodedig Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion<br><br>**Cadeirydd y Panel**:  Ann Hamlet, Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br><br>Dyma'r gwasanaethau gynrychiolwyd ar y panel:<br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Tai<br>• Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br><br>Bu'r Panel yn cyfarfod yn rheolaidd o Medi 2019 ymlaen i adolygu'r wybodaeth amlasiantaeth a darparu dadansoddiad i gefnogi datblygu'r adroddiad.<br><br><u>Digwyddiad Dysgu</u><br>Roedd Digwyddiad Dysgu ym mis Chwefror 2020, gyda'r asiantaethau a ganlyn yn mynychu:<br><br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |

- Tai

Aelodau'r Teulu

Cafodd aelodau'r teulu wybod bod yr adolygiad yn digwydd, a bu cyfarfodydd gydag Adolygwyr.

☐ Nid oedd y teulu am gymryd rhan

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth

………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant

…………………………

Dyddiad dosbarthu i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

………………………….

| Asiantaethau | Ie | Nage | Rheswm |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |

**Atodiad 1**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Cylch Gorchwyl
# Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig

**Tasgau craidd**

- Penderfynu a yw penderfyniadau a gweithredoedd yn yr achos yn cydymffurfio gyda pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd
- Edrych ar weithio rhyngasiantaeth a'r ddarpariaeth o wasanaeth ar gyfer yr unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau roedd penderfyniadau a gweithredoedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw ymholiadau neu weithrediadau sy'n rhedeg yn gyfochrog ac yn ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a phennu ba adnoddau sydd eu hangen.

**Ar gyfer adolygiadau estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol yn benodol:**

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'u hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt yr oedolyn sy'n wynebu risg, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn sy'n wynebu risg.
- A oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg yn ddigon cadarn, ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn a'i amgylchiadau.
- A gafodd y cynllun ei weithredu'n effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a gweithredu'r cynllun amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y cynllun a weithiodd ac na weithiodd yn dda a pham. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn sy'n wynebu risg. A alwyd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol i rym.
- A gafodd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hynny gynnwys ystyriaeth i faterion trefniadaethol a materion cyd-destunol eraill).

**Tasgau penodol i'r Panel Adolygu**

- Canfod a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.

- Y llinell amser yw **1 Mehefin 2017 tan 28 Ebrill 2018, sef y dyddiad marw**.
Bydd unrhyw beth sy'n berthnasol cyn y cyfnod hwn yn cael ei nodi yn yr adroddiad cryno hanesyddol.

- Pennu pa asiantaethau, gwasanaethau a phobl broffesiynol berthnasol sydd i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser ac adolygiad dechreuol o'r achos a dangos pa gamau gweithredu a gymerwyd yn fuan sydd wedi digwydd yn barod.

- Cynhyrchu llinell amser cyfun, dadansoddiad cychwynnol a rhagdybiaethau. **Dylai hyn gynnwys y canlynol:**

    - **Egluro a oedd gan Ann anawsterau dysgu neu anabledd dysgu.**
    - **Nodi cyfnodau o reolaeth drwy orfodaeth yng nghofnodion asiantaethau.**
    - **Adolygu pob atgyfeiriad amddiffyn oedolion a phob ffurflen dyletswydd i adrodd.**
    - **Adolygu'r broses a'r amserlen ar gyfer cymhwyso a gweithredu Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**
    - **Genogram**
    - **A wnaeth Ann ymddieithrio neu a gafodd ei hatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau?**

- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr i gael digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, yn cynnwys pennu pwy sydd i ddod yno a threfniadau i'w paratoi a'u cefnogi hwy cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.

- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr beth fydd y trefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.

- Cael ac ystyried yr adroddiad drafft ar yr adolygiad ymarfer oedolion, er mwyn sicrhau yr atebwyd y cylch gorchwyl, y rhoddwyd sylw i'r ddamcaniaeth ddechreuol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi cael ei bennu a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad ac ar amlinell o gynllun gweithredu, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ystyried a chytuno.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau o'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl gorffen yr adolygiad a chyn cyhoeddi.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd sydd i gael eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y *Panel Adolygu* yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Y bwrdd yn eu gyrru i'r asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn eu harwyddo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau trefniadau i'r Is-grŵp Adolygu reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, yn cynnwys sut bydd gwelliannau a ragwelir mewn gwasanaethau'n cael eu pennu, eu monitro a'u hadolygu.

- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd.

- Cytuno i ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a phobl broffesiynol perthnasol.

- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus ac am ymateb i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad hyd nes bydd y broses wedi'i chwblhau.